

# *Cyngor Cymuned Llanllyfni*

## **Cofnodion cyfarfod misol Cyngor Cymuned Llanllyfni - Nos Fawrth yr 8ed o Orffennaf 2008.**

Yn bresenol oedd y Cyngorwyr: Ifan Glyn Jones (Cadair), Elwyn Jones-Griffith, Dyfed Edwards (Cynghorydd Sir) – Penygroes; T Les Jones – Nantlle; Gwyndaf Roberts, Hefina MW Roberts – Llanllyfni; Dafydd Glyn Owen, Harry Wyn Owen, D Martin Williams – Talysarn; OP Huws, Dilwyn Lloyd – Cynghorwyr Sir.

Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio isod ar gyfer sylwadau'r Cyngor:

\*Gwesty Nantlle Vale, Ffordd Bryncelyn Talysarn – trosi cyn dafarn/gwesty I 5 uned byw hunan gynhaliol, codi 8 ty deulawr newydd a chreu mynediad cerbydol newydd.

\*73 Ffordd Hyfrydle, Talysarn – dymchwel estyniad un llawr presennol a chodi estyniad deulawr cefn.

\*66 Ffordd Bryncelyn, Talysarn – estyniad deulawr cefn.

\*Coed Gwinllan, Tyddyn Hen, Ffordd A487, Penygroes – creu mynediad newydd yn gysylltiedig a rheolaeth coedwigaeth (cais diwygiedig).

\*Neuadd Goffa Llanllyfni – lleoli portacabin wrth gefn Neuadd Gymunedol presennol i'w defnyddio fel ystafell newid i dim pel droed Llanllyfni.

\*Bryn Melyn, Lon Pant y Gog, Nasareth – estyniad unllawr ar ochr annedd presennol, dymchwel 3 strwythur presennol ac 1 stabl a chodi 3 adeilad ac un stabl parhaol newydd yn gysylltiedig a defydd y safle fel gwarchodfa anifeiliaid.

Fe'n hysbyswyd o benderfyniadau'r Awdurdodau Cynllunio perthnasol ar geisiadau cynllunio eraill sef:

**Caniatau** – Estyniad un llawr ochr eiddo ac estyniad deulawr cefn – Hafod Esgob, Rhiw, Nebo; Codi porth ar flaen eiddo – Bryn Teg, Llanllyfni.

### **Adroddiadau Pentrefi.**

Llanllyfni Japanese Knotweed yn tyfu ger y maes parcio ar Lon Ddwr. Maen Capió heb ei ail-osod yn gywir ar Lon Coed Cae Du. Byddwn yn llythyru a Chyngor Gwynedd.

Talysarn Byddwn yn gofyn i Gyngor Gwynedd farbio o amgylch y Trim Trac, y coed drain o amgylch y cae pel droed. Cafwyd cwyn am dyfiant yn rhwystro gwelediad yn Tyrpeg/Ffordd Nantlle ac yng nghwaelod Lon yr Eglwys. Byddwn yn cysylltu gyda Cyngor Gwynedd i'w hysbysu bod arwydd Talysarn wedi diflannu (ochr Penygroes), ac hefyd bod y 'Life-buoys' wedi eu tynnu o ochr y llyn a'u lluchio i lawr yr afon.

Penygroes Byddwn yn cysylltu a Cyngor Gwynedd iddynt docio coed yn Cae Catrin. Hefyd I drin 'Japanese Knotweed' yng nghefn Canolfan Fenter Antur Natlle ar y Stad Ddiwydiannol. Mae angen rhoi chwynladdwr fwy aml. Byddwn yn ysgrifennu at berchnogion Y Fic i ofyn iddynt wneud y lle yn saff a'i ffensió allan. Byddwn hefyd yn ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i ofyn am ddiweddariad parthed problemau parcio ger y Co-op – pryd fydd y broblem yn cael ei datrys? Byddwn yn gofyn i'r Gang Cymunedol o Gyngor Gwynedd ddod i'r pentref i chwynnu. Roedd y Cyngor yn bryderus iawn bod ansawdd y rhaglen 'Y Byd ar Bedwar' yn andwyol iawn i Benygroes a ddim yn ddarlun teg o gwbl. Doedd dim cyfeiriad yn y rhaglen i'r ochr dda o bobl ifanc y Dyffryn. Roedd y Cyngor yn gweld bod y rhaglen yn unochrog a rhagfarnllyd. Byddwn yn ysgrifennu at y cwmni teledu I gwyno, ac hefyd at Gomisiynydd Rhaglenni S4C yng Nghaerdydd.

### **Materion yn ymwneud a'r heddlu.**

Byddwn yn gofyn i'r Heddlu am ganlyniadau arolygu gor-yrru traffic a'u hysbysu bod bysiau yn teithio ar hyd Allt Goch. Bu damwain ar Lon Ddwr, Llanllyfni.